# BETH YW SENEDD IEUENCTID CYMRU?




Aa

# CYNNWYS


*Mae'n dechrau gyda ti!*

*Gweithio i ti!*

*Cymryd rhan, dweud dy ddweud!*

*Cynrychioli dy Gymru Di*

*Dy Gymru Di!*

*Sut rydw i'n gallu pleidleisio?*

*Sut rydw i'n defnyddio fy mhleidlais?*

*Eisiau gwybod mwy?*

Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi gosod cynsail i bobl ifanc sy'n dangos gallan nhw wir arwain newid felly buaswn i'n sicr yn annog cymaint o bobl ifanc â phosibl i gymryd rhan.

***Jonathon Dawes***
***Aelod o'r Senedd Ieuenctid***
***2018-2021***



# GWEITHIO I TI!

## DYMA Y SENEDD I BOBL IFANC YNG NGHYMRU.

Fel y Senedd, bydd gan y Senedd Ieuenctid 60 o Aelodau.

Byddwch chi'n ethol 40 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru (ASIC) drwy bleidleisio yn yr etholiad ym mis Tachwedd 2021. Caiff y 20 arall eu hethol gan sefydliadau partner. Drwy wneud hyn rydyn ni'n sicrhau bod gennym gynrychiolaeth o grwpiau amrywiol o bobl ifanc.

Bydd gan bob un o'r 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yr un statws â'i gilydd, yr un rolau a'r un cyfrifoldebau.

Os wyt ti rhwng 11 ac i fyny at 18 oed, yn byw yng Nghymru neu yn cael dy addysg yng Nghymru, dyma dy gyfle i gymryd rhan drwy bleidleisio i ethol Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru neu hyd yn oed sefyll fel ymgeisydd!

**Mae dy lais yn bwerus!**

# CYMRYD RHAN, DWEUD DY DDWEUD!

## BYDD AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU'N CAEL EU HETHOL AM DDWY FLYNEDD.

Yn ystod y ddwy flynedd, bydd y 60 Aelod o'r Senedd Ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd yn trafod y materion sydd fwyaf pwysig i ti.

**Bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn:**

- Grymuso pobl ifanc Cymru i nodi materion sy'n bwysig i ti, codi ymwybyddiaeth ohonyn nhw a'u trafod.
- Gwrando ar bobl ifanc yng Nghymru, cynrychioli dy farn a gweithredu ar y materion sy'n bwysig i ti.
- Gweithio gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau pwysig i godi'r materion hyn a galw am newid.

“

Mae cael Senedd Ieuenctid Cymru yn dangos y bydd pobl yn gwrando arnon ni.

***Angel Ezeadum***
***Aelod o'r Senedd Ieuenctid***
***2018-2021***



Mae’r profiad o gynrychioli pobl ifanc o bob rhan o fy etholaeth a thu hwnt wedi bod yn wych.

***Maisy Evans***
***Aelod o’r Senedd Ieuenctid***
***2018-2021***



# CYNRYCHIOLI DY GYMRU DI!


## RWYT YN GALLU DEFNYDDIO DY BLEIDLAIS I BENDERFYNU PWY SY'N DY GYNRYCHIOLI DI A'TH RAN DI O GYMRU YN SENEDD IEUENCTID CYMRU.

Mae Cymru wedi cael ei rhannu'n 40 o ardaloedd a elwir yn etholaethau.

Gelli weld pa un yw'r etholaeth lle mae dy gartref neu'r etholaeth lle mae dy ysgol/coleg yn www.senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/

Yr etholaeth hon yw dy ran di o Gymru. Wrth bleidleisio, rwyt yn dewis y person yr hoffet i dy gynrychioli di a dy ardal.Pan fydd yr Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru wedi cael eu hethol, byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol yn y Senedd ac yn gweithio yn eu rhanbarthau lleol ym mhob rhan o Gymru ar faterion a godir gan bobl ifanc o bob rhan o Gymru.

# DY GYMRU DI!


1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32
33
34
35
36
37
38
39
40

## GOGLEDD CYMRU:

1. Ynys Môn
2. Arfon
3. Aberconwy
4. Gorllewin Clwyd
5. Dyffryn Clwyd
6. Delyn
7. Alun a Glannau Dyfrdwy
8. Wrecsam
9. De Clwyd
10. Dwyfor Meirionydd
11. Sir Drefaldwyn

## CANOLBARTH CYMRU:

12. Ceredigion
13. Brycheiniog a Sir Faesyfed
14. Preseli Sir Benfro
15. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
16. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
17. 17. Llanelli

## DE-ORLLEWIN CYMRU:

18. Gŵyr
19. Gorllewin Abertawe
20. Dwyrain Abertawe
21. Castell-nedd
22. Aberafan
23. Ogwr
24. Pen-y-bont ar Ogwr
25. Rhondda
26. Cwm Cynon
27. Pontypridd
28. Bro Morgannwg

## DE DDWYRAIN CYMRU:

29. Gorllewin Caerdydd
30. Gogledd Caerdydd
31. Canol Caerdydd
32. De Caerdydd a Phenarth
33. Merthyr Tudful a Rhymni
34. Blaenau Gwent
35. Torfaen
36. Mynwy
37. Caerffili
38. Islwyn
39. Gorllewin Casnewydd
40. Dwyrain Casnewydd

# SUT RYDW I'N GALLU PLEIDLEISIO?

## MAE DY LAIS YN BWERUS, GWNA'N SICR Y CAIFF EI GLYWED

Gall unrhyw un rhwng 11 ac i fyny at 18 oed, sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n cael eu haddysg yng Nghymru, bleidleisio yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru

I gofrestru bydd angen i chi ddarparu cyfeiriad e-bost, cod post a'ch dyddiad geni. Gallwch ddewis eich cod post cartref neu ysgol ond cofiwch sicrhau mai dyma'r cod post ar gyfer yr etholaeth yr hoffech fwrw eich pleidlais. Os gwnaethoch gofrestru i bleidleisio yn ein hetholiad yn 2018 nid oes angen i chi gofrestru eto a byddwch yn anfon cod pleidleisio a chyfarwyddiadau atoch ar 01 Tachwedd 2021

Bydd y bleidlais ar gyfer yr etholiad yn agor ar 01 Tachwedd ac yn cau am 12.00 ar 22 Tachwedd 2021.

I bleidleisio am dy Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, bydd angen i ti ddilyn y pedwar cam yma:

## COFRESTRU I BLEIDLEISIO

## CADARNHAU DY FANYLION

## EDRYCH DRWY DY NEGESEUON E-BOST I GAEL DY GOD PLEIDLEISIO

## PLEIDLEISIA!



# SUT RYDW I'N DEFNYDDIO FY MHLEIDLAIS?

## MAE DY BLEIDLAIS YN BWYSIG, FELLY DEFNYDDIA HI'N OFALUS!

Bydd angen i ti ddewis pa ymgeisydd yr hoffet ti bleidleisio drostyn nhw. O 18 Hydref 2021, byddi'n gallu gweld pwy yw'r ymgeiswyr ar www.seneddieuenctid.cymru

Gan y bydd gan bob etholaeth fwy nag un person yn sefyll yn yr etholiad, bydd angen i ti ddarllen y bywgraffiad am bob un a phenderfynu pa un rwyt ti'n credu sy'n cynrychioli dy farn di a dy deimladau di orau am y pethau sy'n bwysig i ti.

Bydd yr ymgeiswyr yn canolbwyntio ar faterion y mae'r Senedd yn gyfrifol amdanyn nhw, sef materion sy'n effeithio ar dy fywyd di bob dydd, fel addysg, yr amgylchedd ac iechyd. Galli gael rhagor o wybodaeth am y materion y mae'r Senedd yn gyfrifol amdanyn nhw drwy edrych yn www.senedd.cymru

Y person ifanc gyda'r mwyaf o'r pleidleisiau fydd yn dy gynrychioli di a dy etholaeth am dymor o ddwy flynedd.

Cofia na fyddi di'n gallu newid dy feddwl ar ôl gwneud dy benderfyniad!

# BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I MI BLEIDLEISIO?

## DYWED WRTH Y BYD DY FOD WEDI DEFNYDDIO DY BLEIDLAIS YN ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU. COFIA DDEFNYDDIO #SENEDDIEUENCTIDCYMRU!

SeneddIeuenctidCymru

SeneddIeuenctidCymru

SeneddIeuenctid

Byddwn yn cyhoeddi pwy gafodd eu hethol i fod yn Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Rhagfyr 2021.





# EISIAU GWYBOD MWY?

## DIM OND Y DECHRAU YW HYN!

Ar ôl yr etholiad, bydd y 60 Aelod o'r Senedd Ieuenctid yn cytuno ar ba faterion y bydd eu gwaith nhw'n canolbwyntio am y ddwy flynedd nesaf. Byddan nhw hefyd yn trafod sut i gael cymaint â phosibl o bobl ifanc ar draws Cymru yn rhan o'r gwaith yma.

I gael gwybod beth yw'r newyddion diweddaraf, dilyn Senedd Ieuenctid Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gelli gael y newyddion diweddaraf hefyd am sut i gymryd rhan a chofrestru i gael newyddlen Senedd Ieuenctid Cymru yn www.seneddieuenctid.cymru.

GWEFAN: **WWW.SENEDDIEUENCTID.CYMRU**

INSTAGRAM: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

FACEBOOK: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

TWITTER: **SENEDDIEUENCTID**